



Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Presennol:

Y Cyng. Rosemarie Harris – Arweinydd Cyngor Sir Powys – yn y Gadair

Y Cyng. Aled Davies – Dirprwy Arweinydd/Deiliad Portffolio'r Cabinet: Cyllid, Gwasanaethau Gwledig a Thrafnidiaeth (Cyngor Sir Powys)

Y Cyng. James Evans – Deiliad Portffolio'r Cabinet: Datblygu Economaidd, Tai a Gwasanaethau Rheoleiddiol (Cyngor Sir Powys)

Y Cyng. Myfanwy Alexander – Deiliad Portffolio'r Cabinet: Gofal Cymdeithasol Oedolion a'r Gymraeg (Cyngor Sir Powys)

Y Cyng. Phyl Davies – Deiliad Portffolio'r Cabinet: Addysg ac Eiddo (Cyngor Sir Powys)

Y Cyng. Dafydd Edwards – Deiliad Portffolio'r Cabinet: Prifffydd a'r Amgylchedd gan gynnwys Tai (Ceredigion)

Y Cyng. Rhodri Evans – Aelod Cabinet: Datblygu Economaidd (Ceredigion)

Ann Watkin – Llywodraeth Cymru

Arwyn Davies – Cyngor Sir Ceredigion

Arwyn Watkins OBE – Hyfforddiant Cambrian

Carwyn Jones-Evans – Cyngor Sir Ceredigion

Ceri Stephens – Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru

Claire Miles – Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (RET) Canolbarth Cymru

Eifion Evans – Prif Weithredwr: Cyngor Ceredigion

Emma Wilde – Siambr Masnach Canolbarth Cymru

Gareth Jones – Cyngor Sir Powys

Gareth Thomas – Cynghorydd, Cyngor Sir Gwynedd

Hayley Thomas – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Hywel Davies – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant

Jane Lewis – Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol

Mark Dacey – Grŵp Colegau NPTC

Matt Morden - Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion

Nia Williams – Cydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru

Nicki Hunter – Llywodraeth Cymru

Nina Davies – Cyngor Sir Powys

Nigel Brinn – Cyngor Sir Powys

Rob Holt – Llywodraeth Cymru

Rhodri Griffiths – Llywodraeth Cymru

Rhodri Llwyd Morgan – Prifysgol Aberystwyth

Rhys Horan – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Rowland Rees-Evans – Twristiaeth Canolbarth Cymru

Russell Hughes-Pickering – Cyngor Sir Ceredigion

Steve Hughson – Prif Weithredwr: Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Stella Owen – NFU Cymru

Tom Yeo – Cyngor Sir Powys

**Hefyd yn
bresennol:**

Eileen Kingsman, Peter Tyldesley a John Challen – cynrychiolwyr Canolfan y Dechnoleg Amgen

Ymddiheuriadau:

Ann Elias – Cyngor Sir Ceredigion

Alan Davies – Rheolwr Gyfarwyddwr, Undeb Amaethwyr Cymru

Caroline Turner – Prif Weithredwr: Cyngor Sir Powys
 Y Cyng. Ellen Ap Gwyn – Arweinydd: Cyngor Sir Ceredigion
 Helen Jones – Llywodraeth Cymru
 Helen Minnice-Smith – Llywodraeth Cymru
 Jane Davidson – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
 Jenni Thomas – Cyngor Sir Powys
 John Jones – Llywodraeth Cymru
 Peter Davies – Undeb Amaethwyr Cymru
 Peter James – Llywodraeth Cymru
 Peter Skitt - Cyfarwyddwr Rhaglen Cydbwyllgor Canolbarth Cymru
 Vanessa Naughton –Llywodraeth Cymru

Cofnodion cyfarfod Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ar Ddydd Gwener 17eg Ionawr 2020 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir Powys, Llandrindod.

		Gweithredu
1.	<p>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL – 18fed HYDREF 2019</p> <p>Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar Ddydd Gwener 18fed Hydref 2019 yn gofnod cywir, yn amodol ar newid y cyfeiriadau at Goleg Nedd Port Talbot i Grŵp Colegau NPTC. Cytunwyd bod yr holl faterion i'w gweithredu wedi cael sylw.</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion i'w trafod/diweddaru na fyddai'n cael eu trafod fel rhan o'r agenda.</p>	
2.	<p>BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU – PAPUR DIWEDDARU</p> <p>Dosbarthodd Carwyn Jones-Evans adroddiad diweddar ar y Fargen Twf gan ymddiheuro am beidio â'i ddsbarthu cyn y cyfarfod. Yn ystod y drafodaeth a'r diweddariad cyfeiriwyd yn arbennig at y canlynol:</p> <p>a. Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru – yn dilyn Etholiad Cyffredinol 12fed Rhagfyr roedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ail-gadarnhau eu hymrwymiad yn ddiweddar i gefnogi Bargaen Twf Canolbarth Cymru. Roedd y £55 miliwn a fyddai ar gael dros gyfnod o 15 mlynedd wedi'i gyhoeddi fel ernes. Mi fyddai'n bwysig gwneud y mwyaf o'r arian oedd ar gael i'w dynnu i lawr ar gyfer y rhanbarth.</p> <p>b. Dogfen Gynnig – mae'r gofyniad i gyflwyno dogfen gynnig ar ran Bargaen Twf Canolbarth Cymru i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru erbyn Mawrth 2020 yn aros. Mae'r swyddogion yn hyderus y bydd modd bodloni'r gofyniad. Mi fydd yn bwysig i'r Bartneriaeth ystyried y ddogfen gynnig yn y cyfarfod nesaf, a gynhelir ar 9fed Mawrth.</p> <p>c. Penawdau'r Telerau – mae'r amserlen yn cynnwys arwyddo Cytundeb Penawdau'r Telerau yn ystod 2020. Byddai Penawdau'r Telerau'n ymrwymo'r rhanbarth i gyflenwi prosiectau dan y rhaglen Bargaen Twf.</p> <p>d. Pwyllgor Yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Llywodraeth Cymru – roedd uwch gynrychiolwyr o'r rhanbarth wedi mynychu sesiwn o Bwyllgor Yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar Ddydd Mercher 15fed Ionawr 2020 i roi mewnbwn ar Fargen Twf Canolbarth Cymru a'r cynnydd hyd yn hyn. Roedd y Pwyllgor wedi adolygu cynnydd rhaglenni Bargaen Dinesig a Bargaen Twf yng Nghymru. Mae'r rhaglenni'n debygol o gael eu hadolygu'n rheolaidd.</p> <p>e. Cytundeb Rhyng-Awdurdod – roedd y cytundeb rhwng y ddwy ardal awdurdod lleol wedi'i arwyddo.</p> <p>f. Grŵp Strategaeth Economaidd - roedd Fiona Stuart, Gŵyl y Dyn Gwyrdd, wedi derbyn swydd y Cadeirydd, ac roedd Steve Hughson - Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi derbyn swydd yr Is-gadeirydd. Mae 8-9 o fusnesau'n cael</p>	

	<p>eu cynrychioli ar y Grŵp Strategaeth Economaidd. Cytunwyd i rannu manylion aelodau'r Grŵp gyda'r Bartneriaeth, ochr yn ochr â chofnodion y cyfarfod. Pwysleisiwyd y byddai aelodaeth y grŵp yn datblygu'n barhaus. Byddai'r Grŵp yn chwarae rhan bwysig iawn yn darparu sylwadau strategol ar raglen y Fargen Twf.</p> <p>g. Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – bydd cysylltiadau rhwng y Grŵp Strategaeth Economaidd a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn bwysig iawn er mwyn darparu'r sgiliau lleol angenrheidiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen am Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru ac wedi cymeradwyo'r dull hwn o weithredu. Mi fyddai'n bwysig ei roi ar waith cyn gynted â phosib.</p> <p>h. Cydlyniant - Carwyn Jones-Evans sy'n cadw golwg cyffredinol ar yr holl waith a wneir dan raglen y Fargen Twf, gan gynnwys cysylltiadau â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac mae'n adrodd i Brif Weithredwyr y ddau gyngor. Mae arweinwyr ffrydiau gwaith yn adrodd i Grŵp Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n cwrdd yn rheolaidd. Cytunwyd i ailddosbarthu'r papurau o'r Cydbwyllgor diwethaf i aelodau'r bartneriaeth.</p> <p>i. Partneriaeth TCC – ystyrir rôl y Bartneriaeth fel un bwysig iawn er mwyn trafod/herio a chytuno ar faterion y dylid symud ymlaen â nhw ac ati. Mae'n fforwm ar gyfer dod â chynrychiolwyr at ei gilydd o bob sector sy'n cynrychioli'r rhanbarth.</p> <p>j. Tîm Prosiect/Adnodd Llywodraeth Cymru – byddai canlyniad cais i LIC am arian i brynu adnoddau ar gyfer swyddfa rhaglen ranbarthol yn wybyddus yn fuan (yn Ionawr). Mi fyddai gofyn cael 50% o arian cyfatebol, ac mae cais Blaenoriaeth 5 Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei baratoi mewn perthynas â hyn.</p> <p>k. Gweithgaredd Ffrydiau Gwaith – anogodd Carwyn y cynrychiolwyr i roi gwybod iddo a oedden nhw'n teimlo bod sefydliadau perthnasol wedi bod yn rhan o'r trafodaethau rhanbarthol hyd yn hyn.</p> <p>l. Cydnabod y Rhanbarth – mi fyddai'n bwysig i Lywodraeth Cymru gydnabod Canolbarth Cymru fel rhanbarth ynddo'i hun. Mae tri rhanbarth arall yng Nghymru'n cael eu cydnabod.</p> <p>m. Strategaeth/Menter Dwristiaeth - bydd Croeso Cymru'n cyhoeddi ei gynllun twristiaeth newydd ar 28ain Ionawr. Byddai cynrychiolwyr Croeso Cymru'n croesawu'r cyfle i weithio'n agos â'r rhai mwyaf blaenllaw ym maes twristiaeth yn rhanbarth Canolbarth Cymru er mwyn cefnogi gweithgareddau a sicrhau cydlyniant.</p>	<p>Claire</p>
<p>3.</p>	<p>CANOLFAN Y DECHNOLEG AMGEN - CYFLWYNIAD</p> <p>Rhoddodd Peter Tyldesley, Prif Weithredwr Canolfan y Dechnoleg Amgen ddiweddiariad ar y gweithgareddau sydd ar droed, gan gyfeirio'n arbennig at lwyddiant y safle, sydd wedi bodoli ers 1973. Mae'r safle'n cael ei gydnabod yn fyd-eang ac mae'n ased sylweddol i Fachynlleth a'r ardal gyfagos. Tynnodd Peter sylw yn arbennig at brosiect uwchgynllun Y Chwarel, sef cynllun a fyddai'n mynd ati, pe bai cyllid yn caniatáu, i ddatblygu'r safle dros y 15 mlynedd nesaf. Gellid cyflawni prosiect Y Chwarel fesul cam ac roedd costau'r prosiect llawn oddeutu £20 miliwn. Byddai'r prosiect yn bodloni gofynion y Fargen Twf, a'r gofynion economaidd ehangach ar gyfer Canolbarth Cymru, Cymru gyfan, ac o bosib y DU. Pwysleisiodd Peter y byddai'r rhaglenni gwaith yn parhau i fod yn ystyriol iawn o'r economi leol, ac yn arbennig, y gymuned ffermio.</p>	
<p>4.</p>	<p>FFRAMWEITHIAU ECONOMAIDD RHANBARTHOL</p> <p>Adroddodd Ann Watkin, Llywodraeth Cymru, y byddai Llywodraeth Cymru'n cynnal sesiynau ymgysylltu i gasglu safbwyntiau er mwyn datblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin a Chanolbarth Cymru. Pwysleisiodd</p>	

	<p>Ann y byddai dogfennau'r Fframwaith yn berchen i, ac yn cael eu datblygu gan y rhanbarth. Ni fyddai'r fframweithiau'n disodli cynlluniau/strategaethau eraill LIC ond byddent yn nodi ac yn egluro safbwynt y rhanbarth. Byddai manylion am y digwyddiadau ymgysylltu'n cael eu dosbarthu wedi iddyn nhw gael eu cadarnhau. Mi fyddai'n bwysig bod yr holl sectorau ar draws bob rhanbarth yn ymgysylltu/cyfrannu. Adroddodd Carwyn fod trafodaethau da wedi'u cynnal rhwng swyddogion y rhanbarth a Llywodraeth Cymru ynghylch cysoni gweithgaredd.</p>	
<p>5.</p>	<p>RHAGLEN BUDDSODDI MEWN ADFYWIO WEDI'I DARGEDU</p> <p>Adroddwyd bod 10 o brosiectau rhanbarthol wedi'u hystyried yn erbyn strategaeth ranbarthol ar gyfer Arian Adfywio Wedi'i Dargedu dan y rhaglen fuddsoddi honno. Bu 4 prosiect yn llwyddiannus a byddent yn derbyn cymorth, ond roedd yna heriau yn sgil yr angen i dynnu arian i lawr yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r prosiectau a gynorthwyir yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cronfa Datblygu Eiddo Rhanbarthol – byddai chwe thref yn derbyn hyd at £25,000 i gefnogi cynlluniau i adnewyddu adeiladau canol tref 2. Automobile Palace (Llandrindod) – mae swyddogion yn aros i'r gweinidog perthnasol arwyddo'r ddogfen gymeradwyo derfynol. Fodd bynnag, am fod y penderfyniad yn dod yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, roedd yna risg na fyddai'r holl arian yn cael ei dynnu i lawr. ?? ... y diffyg i gefnogi'r gronfa eiddo rhanbarthol. 3. Gwl Dinas (Ceredigion) – roedd rhai materion cyfreithiol gyda thenantiaid wedi amharu ar y cynnydd. Roedd y materion wedi'u datrys. Byddai £700,000 ar gael i gefnogi'r prosiect. 	
<p>6.</p>	<p>GWEITHGAREDD YMGYSYLLTU RHANBARTHOL</p> <p>Rhoddodd Claire Miles, Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol, ddiweddariad i'r cyfarfod ar y gweithgaredd ymgysylltu. Yn ystod y diweddariad cyfeiriwyd yn arbennig at:</p> <ol style="list-style-type: none"> a. Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru - rhoddodd CM ddiweddariad i'r Bartneriaeth ar waith sydd ar droed gan LIC i ddatblygu rhaglen o fuddsoddi rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae Swyddogion Rhanbarthol yn rhan o nifer o'r gweithgoreu sy'n drafftio'r ddogfen ymgynghori sydd i ddod, a bydd WEFO yn cynnal digwyddiad ymgynghori rhanbarthol yng Nghanolbarth Cymru yn y gwanwyn. Mae'r trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Swyddogion LIC i sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â'r Fframweithiau Ymgysylltu Rhanbarthol sydd i ddod. b. Tabl Rhesymeg Gweithredu ar gyfer yr Ariannu Strwythurol Ewropeaidd Arfaethedig (Hyfforddiant Peirianeg Sbectwm Radio a Hyfforddiant Canfod Milheintiau'n Gynnar) - cyflwynodd CM ddau Dabl Rhesymeg Gweithredu ar gyfer gweithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd y Tablau Rhesymeg Gweithredu'n gwbl gydnaws â blaenoriaethau strategol y rhanbarth. Gwnaed sylw ynghylch cydbwysedd rhyw y cyfranogwyr. Ni chafwyd unrhyw adborth pellach a chytunwyd i gefnogi'r gweithrediadau arfaethedig. 	
<p>7.</p>	<p>UK SHARED PROSPERITY FUND (UKSPF)</p> <p>Yn dilyn trafodaeth am UKSPF, cyfeiriodd y Cynghorydd James Evans at ddatganiad gweinidogaethol diweddar na fyddai Canolbarth Cymru'n cael ei ystyried ar gyfer unrhyw ariannu, pe bai'r gwaith o weinyddu'r arian yn cael ei ddatganoli o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru, ac nad oedd yn sicr felly y dylid</p>	

	<p>datganoli'r arian i Gymru. Cynigiodd y dylid anfon llythyr ar ran TCC i Brif Weinidog Cymru.</p> <p>Dywedodd Ann Watkin, Llywodraeth Cymru, fod y trafodaethau sydd ar droed ynghylch ariannu yn y dyfodol yn rhai gwleidyddol, ac ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r arian gael ei ddatganoli ac na ddylai Cymru dderbyn ceiniog yn llai am fod y DU yn gadael yr UE. Dywedodd Ann hefyd y byddai Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynghylch dosbarthu'r gronfa yn unol â'r pedwar maes blaenoriaeth sef incwm ac economi is, cymorth busnes, newid i economi digarbon, a chymunedau iachach a mwy cynaliadwy. Adroddodd Carwyn na fu unrhyw arwydd, yn ystod ei ymwneud â Llywodraeth Cymru, na fyddai rhanbarth Canolbarth Cymru'n cael ei ystyried ar gyfer cymorth o'r gronfa.</p> <p>Roedd Stella Owen o blaid anfon llythyr i fynegi dymuniad Partneriaeth TCC. Cytunwyd i ddrafftio ac anfon llythyr.</p>	Carwyn
8.	<p>GWEITHGOR CYSYLLTEDD A SEILWAITH (TraCC) - DIWEDDARIAD CHWARTER 4</p> <p>Yn ystod y drafodaeth a'r diweddariad ar yr adroddiad uchod, a oedd wedi'i ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod, cyfeiriwyd yn arbennig at y canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru - mae prosiect profi'r rhwydwaith rheilffyrdd yn un sylweddol a'r cyntaf o'i fath yn y DU. Mi fyddai'n creu oddeutu 140 o swyddi. Y cam nesaf fyddai gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y prosiect. Byddai'r buddsoddiad oddeutu £100 miliwn. Byddai Claire Miles yn gofyn i'r swyddogion perthnasol i roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf. Modelu Cyfrifiadurol - bydd Trafnidiaeth Cymru'n rhannu data modelu gydag Awdurdodau Lleol yn fuan. Cytunwyd y byddai gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol. Gorsaf Bow Street/Pont Dyfi - byddai'r ddau gynllun hyn yng Nghanolbarth Cymru'n sicrhau buddsoddiadau sylweddol ac roeddent yn cael eu croesawu. Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan - Mae yna broblemau arbennig yng Nghanolbarth Cymru oherwydd maint a natur wledig yr ardal. Adroddwyd bod materion yn cael eu hadolygu dan Ffrwd Gwaith Ynni'r Fargen Twf, ochr yn ochr ag ystyriaethau tymor hirach ar gyfer cerbydau pŵer hydrogen. Cysylltedd – Soniodd y Cynghorydd James Evans a'r Arweinydd am sgysiau positif iawn gyda Llywodraeth y DU yn gynharach yn yr wythnos, pan gafwyd cytundeb ar lafar y byddai'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn ymweld â rhannau o ranbarth Canolbarth Cymru. Mi fyddai'n bwysig adeiladu cysylltiadau da er mwyn cael ymrwymiad i wneud gwelliannau mewn ardaloedd lle mae mynediad yn wael. 	Claire
9.	<p>CYFIEITHU</p> <p>Adroddwyd nad oedd cyfieithu ar gael yn y cyfarfod heddiw oherwydd y gwaith oedd yn mynd rhagddo i adolygu'r system gyngres sydd ar waith yn y Siambr, ond mi fyddai cyfieithu ar gael yn holl gyfarfodydd y dyfodol.</p>	
10.	<p>CYNNYDD – GWELEDIGAETH RANBARTHOL</p> <p>Gofynnodd Ceri Stephens am gael gwybodaeth bellach ar ffrydiau gwaith a phrosiectau'r Fargen Twf yng nghyfarfodydd y bartneriaeth yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei darparu pan oedd yn barod.</p>	
11.	<p>PRIFYSGOL ABERYSTWYTH – RHAGLEN DDATBLYGU</p>	

	<p>Cafwyd sylw yn y wasg yn ddiweddar am y cyhoeddiad bod £26 miliwn wedi'i glustnodi i ddatblygu safle'r Hen Goleg ar lan y môr yn Aberystwyth. Byddai'r gweithgaredd yn creu oddeutu 50 o swyddi. Nid yw'r mater yn rhan o'r Fargen Twf, ond mi fydd yn hwb sylweddol i economi Canolbarth Cymru. Bydd y gwaith yn dechrau ym Mawrth 2020.</p>	
<p>12.</p>	<p>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</p> <p>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9fed Mawrth yn Aberaeron.</p>	

**CYNGHORYDD ROSEMARIE HARRIS - ARWEINYDD
CYNGOR SIR POWYS
YN Y GADAIR**